



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Tach. 2012
Rhifyn 191

Oedfaon Mis Tachwedd

4 Tach. - Bore: Gweinidog / Hwyr (4pm): Uno yn Salem
Gweinyddir y Cymun yn oedfa'r bore a bydd
Bwrdd Gwerthu Masnach Deg yng nghyntedd Seilo

11 Tach. - Bore a Hwyr: Y Parchg Iorwerth Jones Owen

18 Tach. - Bore a Hwyr: Gweinidog

25 Tach. - Bore a Hwyr: Y Parchg Elwyn Richards

Cofiwch bod oedfa'r hwyr am 4pm

FFAIR NADOLIG SEILO

DYDD IAU 15 TACH. (1.00- 4.30 pm)

Cacennau, cynnyrch cartref, gwaith llaw, nwyddau
bron yn newydd.

Llu o anrhegion Nadolig am bris rhesymol.

Digwyddiadau Mis Tachwedd

Bore Gwener 2 Tach (10am): Ffair Hydref Sefydliad y Galon yn yr Institiwt (Tocyn £1)

Nos Lun 5 Tach (7.30pm) : **Y Gymdeithas Lenyddol**

'Y Gair tu ôl i'r Gân' - sgwrs gan y cerddor Robert Arwyn

Nos Lun 12 Tach. (7pm) **Cymdeithas Chwiorydd Seilo**

'Tyd am dro co, heb godi o dy sê't' - sgwrs gan Emrys Llywelyn Jones

Dydd Iau 15 Tach: **Ffair Nadolig Seilo** (1.00 - 4.30pm)

Nadolig y Plentyn / Operation Christmas Child - derbynir bocsys yn ystod yr oedfaon ddydd Sul 18 Tach, a rhwng 10am a 12pm fore dydd Llun 19 Tach. Os yw'r amseroedd hyn yn anghyfleus i chi gallwch roi eich bocsi i'r gweinidog neu i un o'r blaenoriaid.

Taro Mewn - bob bore Mawrth yn Salem (10 -11am)

Seiat - bob bore Mercher (10am)

Y Gell Weddi - bob dydd Iau

Am Eiliad

Welsoch chi erioed arddangosfa gan y garddwr medrus Medwyn Williams? Mi welais i fwy nag unwaith, a'r tro olaf oedd yn Sioe Frenhinol Llanelwedd fis Gorffennaf eleni. Fel y gwyddom, mae sgiliau garddwriaethol Medwyn Williams yn adnabyddus dros y byd, ac mae wedi ennill y fedal aur iddo sawl tro yn y prif sioeau gan gynnwys Sioe Flodau Chelsea. Ni all neb ond rhyfeddu at ei ddawn, ac roeddwn yn gegrwth yn syllu ar ei arddangosfa yn Llanelwedd eleni. Roedd y cyfan mor berffaith. Pob moronen yr un faint â'i gilydd, fel y tatws, y tomatos a phob llysieuyn arall.

A dyna i chi air all gael ei gamddefnyddio - y gair 'perffaith'. Sut mae diffinio perffeithrwydd? Efallai bod rhywbeth sy'n ymddangos yn berffaith i un yn llai perffaith i rywun arall. Adda ac Efa ddrysodd y perffeithrwydd yng Ngardd Eden, a byth wedi hynny mae dyn wedi ceisio perffeithrwydd ond heb ei gael.

Ond er hynny, ar daith bywyd, ein nôd fel Cristnogion yw ceisio'r perffeithrwydd a welwyd ym mywyd Iesu Grist. Ac er y gwyddom na chyrhaeddwn fyth mo'r nôd hwnnw, dylai'n bywyd geisio adlewyrchu nodweddion bywyd Iesu Grist wrth inni geisio cyflawni ewyllys Duw ar ein cyfer.

Ond haws dweud na gwneud, oherwydd gall bywyd fod yn ddyrys iawn ar adegau a gall amgylchiadau fod yn anodd a hyd yn oed yn greulon. Pob Diolchgarwch byddaf yn

darllen yr adnodau cyfarwydd o Lyfr Habacuc, ble mae'r awdur yn datgan i'w gynhaef fethu a'i adael ef a'i deulu yn bryderus am y dyfodol. Ond er gwaethaf ei siomiant, dyma fu ei ymateb:

“Er nad yw'r ffigysbren yn blodeuo, ac er nad yw'r gwinwydd yn dwyn ffrwyth; er i'r cynhaef olew ballu, ac er nad yw'r meysydd yn rhoi bwyd; er i'r praid ddarfod o'r gorlan, ac er nad oes gwartheg yn y beudai; eto llawenychaf yn yr Arglwydd, a llawenhaf yn Nuw fy iachawdwriaeth.”

(Habacuc 3:17-18)

Rhyfeddol, a dweud y lleiaf. Mae'n amlwg fod ganddo gynhaef arall yn ei fywyd, nad oedd yn dibynnu ar y tywydd i'w feddi.

Nid yw'n hawdd diolch am bob peth, ond gallwn ddiolch ym mhob peth. Ac mae byd o wahaniaeth rhwng y naill a'r llall. Mae un peth sy'n sicr, pan fyddwn ni'n cwyno, fel y gwnawn yn aml, mae rhai o'n brodyr a'n chwiorydd sy'n byw yn yr un byd â ni yn dioddef yn enbyd. Fedrwn ni ddim dychmygu bod heb ddim – heb fwyd, heb ddŵr glân, heb gysgod, heb ofal a heb gyfleusterau meddygol. Pan fyddwn ni'n dioddef, gan amlaf mae rhywrai o'n hamgylch i'n cynorthwyo. Ond i filiynau o dlodion y byd, does neb wrth law i fod o gymorth iddynt.

O'i gymharu â hynny, mae'n well byd arnom ni nag yw hi ar lawer. Ac o sylweddoli hynny ni allwn lai na diolch, ac er mwyn i'n diolch fod yn

fwy na geiriau, mae'n rhaid i ni rannu. Un ffordd o wneud hynny yw trwy roi i elusennau. £12 yr aelod oedd y disgwyl Apêl y Cyfundeb i gynorthwyo pobl dlawd Guatemala eleni. Ddim llawer, wir, o gofio ei bod hi mor dda arnom.

Gwenda Richards

Coffâd

Gwladys Davies, 18 Stryd yr Eglwys.

Fel Gwladys, Lodging Hall, y byddai pawb yn ei hadnabod a chofiw'n yn annwyl amdani y tu ôl i gownter y siop yn y Stryd Fawr. Roedd hi'n wraig gymdeithasol o ran natur a phob amser yn hwyliog. Carai ei theulu, a bu colli ei phriod, Norman, yn ddiweddar yn ergyd drom iddi. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Sharon a Haydn a'r teulu oll yn eu profedigaeth a dymunwn nerth Duw iddynt yn eu hiraeth am fam a nain sbesial.

Gwaeledd

Anfonwn ein dymuniadau da at bawb o'r eglwys a fu'n wael yn ystod y mis. Treuliodd **Mrs Eirian Jones**, Gilfach, Parc Muriau, (Cartref Gwynfa), gyfnod yn Ysbyty Gwynedd fel y gwnaeth **Mrs Edith Evans**, 43 Cae Mur. Mae **Mr Emyr Parry**, Tre'r Ceiri, 5 Llwyn Ceirios, a **Mr Arthur Rowlands**, Arenig, Ffordd Bethel yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd a dymunwn adferiad iechyd iddynt. Mae **Mr Edgar Parry**, Stryd Thomas, yn bur wael yn Ysbyty Eryri.

Rhôdd

Derbyniodd Seilo rodd ariannol annisgwyl o'r eglwys Bresbyteriaidd Gymraeg yn Los Angeles, Yr Unol

Daleithiau, yn ddiweddar. Gan fod yr eglwys honno yn dirwyn yr Achos i ben, penderfynodd rannu ei buddsoddiadau rhwng mudiadau elusennol yng Nghymru, a bu eglwys Seilo yn ddigon ffodus i dderbyn dros £3,000 o bunnoedd. Diolchwn i swyddogion ac aelodau'r eglwys am eu haelioni.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchwn **Gwen Angharad Thomas**, Dolgyfnydd Uchaf, Pontrug, ar gael ei dewis yn Brif Ddisgybl o blith y genethod yn Ysgol Brynrefail. Dymunwn yn dda iddi yn ystod tymor ei harweinyddiaeth.

Bedydd

Bore Sul 7 Hydref bedyddiwyd **Cadi Haf**, merch fach Andrew a Donna, 18 Pentre Helen, Deiniolen. Llongyfarchwn y teulu a dymunwn fendith ar eu haelwyd.

Cyfeiriad ebost

Mae'r gweinidog yn parhau i geisio cyfeiriadau ebost aelodau Seilo. Mae nifer wedi ymateb eisoes, a diolchir iddynt am eu prydlondeb, ond mae angen ymateb gan fwy ohonoch. Byddai derbyn y cyfeiriadau hyn yn ein galluogi i gysylltu'n haws â'n gilydd pe bai angen gwneud hynny. Cysyllter â'r gweinidog ar abermenai@btinternet.com

Gwefan Henaduriaeth Arfon

Erbyn hyn mae Gwefan Henaduriaeth Arfon wedi ei lansio a gellir gweld hanes digwyddiadau Seilo gan gynnwys y Bont arni. Ewch i mewn i 'henaduriaetharfon.org' a chliciwch ar 'Eglwysi Dosbarth Arfon' ac yna ar

Eglwys Seilo'. Pwy a wŷyr, efallai y gwelwch ei llun arni!

Ffair Nadolig

Cofiwch am y Ffair Nadoliog a gynhelir rhwng 1 a 4.30 o'r gloch brynhawn dydd Iau, 15 Tachwedd. Ymhlith y stondinau bydd stonidin gacennau a chynnyrch cartref, stonidin cynnyrch gardd, stonidin anrhegion a stonidin bron yn newydd. (Ni dderbynnir dillad na llyfrau oedolion). Derbynnir tegannau a llyfrau plant mewn cyflwr da.

Mae tocynnau ar gael gan aelodau'r pwyllgor. Os oes unrhyw aelod (gŵr neu wraig) nad yw ar y pwyllgor yn fodlon cynorthwyo i werthu tocynnau, gellir cael rhai gan yr ysgrifennydd, Mrs Beryl Roberts (671067). Pris tocyn yw £1. Bydd yr elw eleni yn cael ei rannu rhwng Seilo ac Apêl Guatemala.

Apelir am roddion ar gyfer y byrddau a'r tombola.

Bydd y Theatr yn agored rhwng 6 a 7pm nos Fercher, 14 Tachwedd, a rhwng 10 ac 11am fore dydd Iau i dderbyn nwyddau.

Blodau'r Sul

Dyma'r chwiorydd fydd yn gyfrifol am flodau ar gyfer oedfaon mis Tachwedd: **Mrs Nan Parri** (4); **Mrs Mair Evans** (11); **Mrs Helen Gwyn** (18); **Mrs Alice Evans** (25).

Cymdeithas Lenyddol **a Chymdeithas y Chwiorydd**

Swper Cynhaeaf

Nos Lun Hydref 1^{af} cynhaliwyd noson agoriadol y cymdeithasau yn mwynhau swper y cynhaeaf. eleni eto daeth nifer dda iawn i gefnogi'r noson. Dan arweiniad Miss Dorothy Williams a chwiorydd y ddwy gymdeithas paratowyd gwledd i bawb. Wedi gras bwyd mwynhawyd cawl llysiau, tatws trwy'i crwyn, selsig a ffa pôb, teisen afal a hufen a phaned boeth – y cyfan am deirpunt.

Llywydd y noson oedd y Gweinidog ac wedi clirio sydyn croesawodd ein gŵr a gwraig gwadd – Parch Harri Parri a Mrs Nan Parri i gyflwyno sgwrs ddifyr ar atgofion melys o hen Aistin Seven cyfnod eu carwriaeth cynnar a hanesion difyr ynghyd â lluniau am rai o deulu'r ddau. Soniodd Mrs Parri am ei thad, Rhys Griffith Roberts, ei hynafiaid a phump cenhedlaeth o seiri coed Hendre Bach, Rhosfawr a hanes yr ardal a'i phobl a Chapel Bedyddwyr Tyddyn Sion.

Diolchwyd i bawb gan y Parch Gwenda Richards.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas Lenyddol Nos Lun, Tachwedd 5^{ed}, sgwrs gan y cyfansoddwr Robot Arwyn "Y gair tu ôl i'r gân"

Eurwen Williams

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf i law erbyn Tachwedd 20^{fed}

Gweinidog: Parch Gwenda Richards 676435

Golygydd: Mrs Angharad Rhys Williams 674865

